Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Rhaeadr Arthog a Llynnau Cregennan

CYMEDROL




### Trosolwg o'r Daith

Pellter: 13.7km (8.5 milltir)

Hyd: 4 awr

Math o daith: Cylchdaith

### ⚠ Cyn i chi gychwyn


Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru


V-20230516/0952





O'r maes parcio, trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y lôn am oddeutu 100 medr nes i i chi gyrraedd llwybr cyhoeddus ar eich chwith.





Ewch drwy'r giât ar eich chwith gan ddilyn arwyddfarciau'r Parc Cenedlaethol. Dilynwch y llwybr ar hyd yr arglawdd, drwy'r cae tuag at Eglwys San Catherine nes i chi gyrraedd giât mochyn.




Ewch drwy'r giât mochyn, trowch i'r chwith a cherddwch ar hyd y brif lôn (A493) nes i chi gyrraedd giât yr eglwys. Mae'r brif lôn yn gallu bod yn brysur ar adegau felly byddwch yn ofalus. Croeswch y ffordd tuag at lwybr cyhoeddus dros ffordd i giât yr eglwys. Dilynwch y llwybr i fyny'r grisiau ac i mewn i'r goedlan.




Trowch i'r dde pan fydd llwybr y goedlan yn fforchio gan gadw'r afon ar eich chwith. Mi fydd y llwybr yn dringo drwy'r goedlan. Cymerwch ennyd i fwynhau'r rhaeadr wrth i'r llwybr wyro.





Dilynwch y llwybr i'r dde ac i ben y bryn. Byddwch yn mynd heibio hen goeden ffawydd enfawr ar eich dde. Ewch dros y gamfa yn y wal ac ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr i'r chwith. Dilynwch yr afon am oddeutu 500 metr nes i chi gyrraedd camfa bren a thrac fferm.




Ewch dros y bont garreg ac ymunwch â'r trac fferm. Mwynhewch yr olygfa o Dyrrau Mawr. Trowch i'r chwith ac ewch yn eich blaen ar hyd y trac gan fynd drwy ddwy giât fferm.




Ar ôl yr ail giât fferm, gwyrwch i'r chwith gan ddilyn y cyfeirbwyntiau heibio adfail ac ar hyd y wal derfyn gan anelu tuag at y gamfa wrth y cerrig mawrion yn y pellter. Ewch dros y gamfa a dilynwch y llwybr a'r cyfeirbwyntiau nes i chi gyrraedd ffordd. Trowch i'r dde a cherddwch i fyny'r ffordd am oddeutu 650 metr.




Wrth i chi gyrraedd y cyfeirbwynt ar ben y bryn, byddwch yn gallu gweld Llynnau Cregennen islaw. Dilynwch y llwybr i'r chwith nes i chi gyrraedd camfa yn y wal. Ewch dros y gamfa a pharhewch ar hyd y llwybr dros rostir garw. Ar eich chwith fydd godreon Pared y Cefn-hir.




Parhewch ar hyd y llwybr nes cyrraedd giât fferm uwch fferm Ty'n Llidiart. Ewch drwy'r giât a chroeswch y caeau i ymuno â thrac fferm. Trowch i'r chwith a dilynwch y trac lawr y dyffryn nes i chi gyrraedd ffordd wledig. Dilynwch y ffordd i'r chwith am oddeutu 200 metr. Fe ddowch at adfeilion capel ar eich chwith.

10



Dilynwch y llwybr i'r dde, dros y ffordd i'r capel, i lawr drwy'r coed i ailymuno a'r ffordd uwch hostel 'Kings Youth'. Cerddwch ar hyd y lôn am oddeutu 1.5km.

11



Croeswch y briffordd (A493) tuag at fynedfa fferm Abergwynant. Byddwch yn ofalus wrth groesi'r ffordd. Ewch yn eich blaen ar hyd y dramwyfa tuag at fferm Abergwynant ac at y bont.

12



Ar gyrraedd y bont, dilynwch y llwybr cyhoeddus i'r dde gan gadw Afon Gwynant i'ch chwith. Parhewch i'r chwith gan ddilyn y trac drwy Goed Abergwynant nes cyrraedd Llwybr Mawddach.

13



Trowch i'r chwith a dilynwch Lwybr Mawddach am oddeutu 4.5km yn ôl i'r maes parcio.